

SSP 42

Ymgynghoriad ar flaenoriaethau'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai  
ar gyfer y Chweched Senedd

Consultation on the Local Government and Housing Committee's  
priorities for the Sixth Senedd

Ymateb gan: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Response from: Welsh Local Government Association

Your Ref/Eich Cyf:

Date/Dyddiad:

Email/E-bost:

16 Medi 2021

John Griffiths AS  
Cadeirydd, Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN



Annwyl John,

## **Blaenoriaethau ar gyfer Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

Diolch i chi am eich llythyr yn ceisio safbwyntiau am flaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

Rydym ni'n falch bod y Senedd unwaith eto wedi cytuno i sefydlu pwyllgor sydd yn canolbwyntio ar lywodraeth leol o wybod pwysigrwydd allweddol awdurdodau lleol wrth gyflwyno gwasanaethau rheng flaen hanfodol ac arwain eu cymunedau. Rydym ni felly yn edrych ymlaen at weithio gyda chi a'ch pwyllgor wrth hyrwyddo gwaith llywodraeth leol a cheisio llunio polisi a deddfwriaeth.

Fe amlinellodd CLILC ei dyheadau ar gyfer y tymor sydd i ddod yn [Maniffesto ar gyfer Lleoliaeth](#) cyn etholiadau'r Senedd. Fel y gwyddoch chi, gofynnwyd i ni hefyd gyfrannu at Bwyllgorau Senedd eraill sydd wedi ceisio safbwyntiau ar flaenoriaethau eu rhaglenni gwaith i'r dyfodol.

Mae awdurdodau lleol yn parhau i ddelio â phwysau Covid ac maent yn gorfod ceisio dod o hyd i'r cydbwysedd rhwng gofynion yr ymateb parhaus i'r argyfwng gyda'r broses o adferiad gwasanaethau ac ailagor yr economi. Mae'r mwyafrif o wasanaethau llywodraeth leol yn cael eu hystyng fel na welwyd o'r blaen gyda galw digynsail ar wasanaethau cymdeithasol, ysgolion yn ailagor ar gyfer tymor yr hydref, ac nid yw'r pwysau parhaus ar wasanaethau gwarchod y cyhoedd a gorfodaeth ymhell o benawdau'r newyddion.

Mae yna nifer o faterion gwasanaethau lleol allweddol a fydd yn ymddangos yn gryf yn rhaglenni gwaith pwyllgorau eraill o ystyried y diwygiadau sydd yn parhau neu sydd wedi'u cynllunio yn ogystal ag effaith sylweddol Covid, yn enwedig ym maes economi, addysg a gwasanaethau cymdeithasol.

Er nad yw'r materion hyn o fewn cylch gwaith y pwyllgor hwn, does dim amheuaeth y bydd tai yn ymddangos yn amlwg yng ngwaith eich

Dr Chris Llewelyn  
Prif Weithredwr  
Chief Executive

Cymdeithas Llywodraeth  
Leol Cymru  
Tŷ Llywodraeth Leol  
Rhodfa Drake  
CAERDYDD CF10 4LG  
Ffôn: 029 2046 8600

Welsh Local Government  
Association  
Local Government House  
Drake Walk  
CARDIFF CF10 4LG  
Tel: 029 2046 8600

wlga.cymru  
wlga.wales

@WelshLGA

**Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith.  
Ni fydd defnyddio'r naill iaith na'r llall yn arwain at oedi.**

**We welcome correspondence in Welsh and English and will respond to correspondence in the same language.  
Use of either language will not lead to a delay.**

pwyllgor fel gwasanaeth lleol allweddol, cyfrannwr allweddol at economïau lleol ac yn hollbwysig i'n hadferiad ar ôl y pandemig. O ganlyniad, mae'r Cynghorydd Andrea Lewis, Llefarydd Tai CLILC wedi cyfrannu at yr ymateb hwn.

Felly rydym ni'n awgrymu yr hoffai'r pwyllgor ystyried y canlynol yn ei raglen gwaith i'r dyfodol:

- Mae gan y Rhaglen Lywodraethu nod **i gryfhau ymreolaeth ac effeithiolrwydd Llywodraeth leol i'w gwneud nhw'n fwy llwyddiannus wrth gyflwyno gwasanaethau**. Dim ond gyda **chyllid teg a hyblyg** y gellir gwneud hyn – mae cynghorau angen rhagor o hyblygrwydd ac ymreolaeth gyllidol er mwyn ymateb i anghenion a blaenoriaethau lleol, yn cynnwys pwerau i chwilio am ffynonellau eraill o incwm trwy ffioedd a thaliadau a phwerau disgresiwn i godi trethi newydd a mynd i'r afael â materion lleol penodol (megis treth dwristiaeth). Croesawir ymrwymiad Llywodraeth Cymru i **leihau'r byrdwn gweinyddol ar awdurdodau lleol** a dadl CLILC yw y dylid cynnwys pob grant penodol mewn i grant cyffredinol. Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i **ddiwygio treth y cyngor er mwyn sicrhau system decach i bawb** wedi cael ei groesawu hefyd ac mae'n bosibl yr hoffai'r Pwyllgor gyfrannu at unrhyw gynigion newydd wrth iddynt gael eu llunio dros y misoedd sydd i ddod.
- **Effeithiolrwydd Llywodraeth Cymru i gefnogi gwaith awdurdodau lleol a phartneriaid eraill o ran mynd i'r afael ag atal digartrefedd a chysgu allan a sicrhau** bod y rhai hynny sy'n mynd i lety dros dro (yn fwy na 6,500 ar hyn o bryd) yn ystod y pandemig yn cael eu cefnogi i gael tai parhaol, a chefnogi trawsnewid darpariaeth llety dros dro ar hyn o bryd ac yn y dyfodol a gwasanaethau digartrefedd.
- Yn dilyn Adolygiad o Gyflenwad Tai Fforddiadwy, **edrych ar effeithiolrwydd cefnogaeth Llywodraeth Cymru i gynyddu darpariaeth tai fforddiadwy, yn cynnwys adeiladu niferoedd uwch o gartrefi gan Gynghorau a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ar draws Cymru**; Mae dull traws-Llywodraethol i adeiladu newydd, prosiectau gwella ac ôl-osod tai yn rhoi cyfle i weithredu ar yr un pryd ar: fodloni angen o ran tai a mynd i'r afael â digartrefedd; arbed ynni, tloidi tanwydd a newid hinsawdd; twf economaidd lleol cynhwysol; a gwella iechyd, lles a chydlyniant cymdeithasol cyffredinol.
- Mewn adolygiadau diweddar o addasiadau tai yng Nghymru a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru (2018) a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd (2018), tynnwyd sylw at yr angen bod Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, cymdeithasau tai, Asiantaethau Gofal a Thrsio, a chyrff iechyd a gofal cymdeithasol yn cyflwyno rhagor o gysondeb a safoni i wasanaethau. Gallai'r Pwyllgor **archwilio i'r graddau y mae'r argymhellion o'r astudiaethau blaenorol wedi cael eu gweithredu a'r graddau y mae gwelliannau yn narpariaeth strategol a gweithredol o addasiadau** wedi cael eu cyflawni i gefnogi iechyd a lles pobl ddiamddiffyn.
- Mae [Maniffesto CLILC ar gyfer Cymru Wledig](#) yn gofyn am "Tai i adlewyrchu anghenion cymunedau lleol" a gellir cyflawni hyn trwy bolisiau tai wedi'u teilwra i gefnogi anghenion cymunedau gwledig i ysgogi economïau lleol a chadw demograffeg leol iau, gyda chymorthdaliadau cyfalaf i godi tai fforddiadwy ar draws

**Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith. Ni fydd defnyddio'r naill iaith na'r llall yn arwain at oedi.**

**We welcome correspondence in Welsh and English and will respond to correspondence in the same language. Use of either language will not lead to a delay.**

ystod o ddeiliadaethau. Gallai'r Pwyllgor **edrych ar effeithiolrwydd polisiau tai a chymorthdaliadau i gyflawni'r amcanion hyn.**


- Cyflwynodd Y Fonesig Judith Hackitt sawl argymhelliad i gyflwyno gwelliannau i ddiogelwch adeiladau yn dilyn ei hymchwiliad. Mae'n **bosibl yr hoffai'r Pwyllgor ystyried y cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yn hyn wrth weithredu'r argymhellion yma yng Nghymru**, unrhyw rwystrau i'w gweithredu, ac adnabod newidiadau sydd eu hangen er mwyn parhau â'r cynnydd yn y maes pwysig yma.

Yn eich cais, gofynnwyd i ni ganolbwyntio ar y 12 mis sydd i ddod, serch hynny yn yr hir dymor, mae'n bosibl yr hoffai'r Pwyllgor ystyried:

- **Craffu ôl-ddeddfwriaethol ar Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**, yn benodol, ffocws ar ddiwygiadau gwasanaethau etholaethol a democrataidd yn ehangach a sefydlu cydbwyllgorau corfforaethol (er nid yw swyddogaethau cydbwyllgor corfforedig yn cychwyn tan fis Mehefin 2022 (ar gyfer tri o'r cydbwyllgorau corfforedig), felly dylid amseru unrhyw adolygiad er mwyn sicrhau bod y swyddogaethau hyn wedi cael eu sefydlu.
- **Diwygio etholaethol** – mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu rhaglen uchelgeisiol o ddiwygiadau etholaethol, cyn etholiadau lleol 2022 a'r ail gam, cyn etholiadau 2026 a 2027 yng Nghymru. Fe fydd yna lawer i'w ddysgu o weinyddu etholiadau lleol 2022, yn cynnwys diwygiadau newydd a chynlluniau peilot etholaethol a ddylai gyfrannu at agenda diwygio hir dymor Llywodraeth Cymru. Er y gallai hyn fod yn fater y mae'r Pwyllgor Cyfiawnder a Chyfansoddiad yn bwriadu ei ystyried, fe fydd gan Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ddiddordeb o wybod yr effaith ar ddemocratiaeth leol a gweinyddu etholaethol lleol.

Yn benodol, mae arweinwyr CLILC yn awyddus i ymgysylltu gyda gwaith y Pwyllgor ac ar draws y Senedd, ac fe wnaethom gynnal cyfarfod cychwynnol llwyddiannus ddydd Mercher gydag Aelodau'r Senedd, yn cynnwys rhai o aelodau'r Pwyllgor. Felly buaswn yn croesawu'r cyfle i gyfarfod gyda chi fel Cadeirydd i drafod unrhyw faterion o ddiddordeb ymhellach.

Yn ddiffuant



Cyng Andrew Morgan  
**Arweinydd CLILC**

**Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith.  
Ni fydd defnyddio'r naill iaith na'r llall yn arwain at oedi.**

**We welcome correspondence in Welsh and English and will respond to correspondence in the same language.  
Use of either language will not lead to a delay.**